# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **27 MEDI 2012** |
| TEITL | **STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2012-2015** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 3-BLYNEDD CYNGOR GWYNEDD I'R PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **NODI CYNNWYS Y STRATEGAETH** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae rhan 7.1 Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006 ("y Côd Ymarfer") yn datgan:

> **7.1 STRATEGAETH ARCHWILIO**
>
> 7.1.1 Rhaid i Bennaeth Archwilio Mewnol gynhyrchu strategaeth archwilio; datganiad lefel-uchel ydyw o sut y caiff y gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu a'i ddatblygu yn unol â'i gylch gorchwyl a sut mae'n cysylltu i amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad. Gellir cyflwyno'r strategaeth fel dogfen ynddo'i hun neu ei integreiddio i mewn i ddogfen sydd eisoes yn bodoli, megis cynllun busnes neu gynllun gwasanaeth. Mae'n gosod y cyd-destun ble gellir datblygu cynlluniau mwy manwl. Dylid cadw'r strategaeth yn gyfredol gyda'r sefydliad a newidiadau yn ei flaenoriaethau.
>
> 7.1.2 Bydd y strategaeth yn cyfathrebu'r cyfraniad y mae Archwilio Mewnol yn ei wneud i'r sefydliad a dylai gynnwys:
>
> (a) amcanion a deilliannau Archwilio Mewnol
>
> (b) sut bydd Pennaeth Archwilio Mewnol yn llunio'i farn ar yr amgylchedd reolaeth ac yn gallu cefnogi'r farn yma â thystiolaeth, er mwyn cefnogi'r Datganiad Rheolaeth Fewnol blynyddol
>
> (c) sut bydd Archwilio Mewnol yn adnabod a delio â materion a risgiau lleol a chenedlaethol arwyddocaol
>
> (ch) sut y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu, h.y. yn fewnol, yn allanol neu gyfuniad o'r ddau.
>
> (d) sefydlu'r adnoddau a sgiliau sydd yn angenrheidiol ar gyfer trosgludo'r strategaeth.
>
> 7.1.3 Dylai'r pwyllgor archwilio gymeradwyo, ond nid llywio, y strategaeth.

1.2 Cymeradwywyd Strategaeth ar gyfer darparu gwasanaeth Archwilio Mewnol i Gyngor Gwynedd am 2012-2015 gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2012. Mae'r Strategaeth wedi ei osod ar ffurf sydd yn dilyn Côd Ymarfer CIPFA. Mae'n ddatganiad "lefel-uchel", ond hefyd yn cynnwys digon o fanylder i roi arweiniad a gosod cyfeiriad cadarn i'r Adain Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen i'r dair blynedd nesaf.

1.3 Mae'r Strategaeth wedi ei gynnwys yn yr atodiad. Fe'i cyflwynir i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth, gan fod nifer o aelodau newydd o'r Pwyllgor yn dilyn etholiad Mai 2012.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi cynnwys Strategaeth Archwilio Mewnol 2012-2015.

TUDALEN FWRIADOL WAG

ADRAN
CYLLID

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL

# 2012-2015

# PWRPAS

## Pam cael Archwilio Mewnol?

Mae Archwilio Mewnol yn darparu gwasanaeth statudol o fewn y Cyngor, gan anelu i roi hyder i'r dinesydd fod y bygythiadau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn cael eu lliniaru fel sy'n briodol. Mae'n gwneud hyn drwy gynorthwyo'r Prif Swyddog Cyllid i sicrhau iawn weinyddiad o arian y trethdalwr, a chynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio i gadw tros olwg o drefniadau rheolaeth a llywodraethu'r awdurdod.

Diffiniad swyddogol CIPFA yw: "Swyddogaeth rhoi sicrwydd yw Archwilio Mewnol sydd yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol i gyfundrefn ar yr amgylchedd reolaeth wrth werthuso ei effeithiolrwydd tra'n gwireddu amcanion y gyfundrefn. Mae'n archwilio, gwerthuso ac adrodd yn wrthrychol ar ddigonolrwydd yr amgylchedd reolaethol fel cyfraniad i'r defnydd priodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau."

Mae'r amgylchedd reolaeth yn cynnwys y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Felly, er y bydd Archwilio Mewnol yn parhau i roi sylw arbennig i risgiau ariannol a phriodoldeb ariannol, fel rhan o'i rôl statudol bydd cwmpas ei waith yn ymestyn i amgylchedd reolaeth gyfan y Cyngor hefyd.

# GWERTHOEDD Y CYNGOR

## Sut mae Archwilio Mewnol yn byw gwerthoedd y Cyngor?

**Parch**
Mae gan archwilwyr Mewnol y Cyngor hawliau i gael mynediad i wybodaeth, dogfennau ac adeiladau. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau fod archwilwyr yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau sy'n deillio o'r hawliau hyn. Er y bydd y gwasanaeth yn parhau i adrodd yn negyddol os teimlir fod rhai unedau busnes yn gweithredu'n groes i arferion rheoli risg dda, neu os darganfyddir afreoleidd-dra, bydd Archwilio Mewnol yn parhau i bwysleisio mai ei rôl yw i gynorthwyo ac i sicrhau gwelliant, ac nad yw'n wasanaeth i godi ofn ar reolwyr a swyddogion.

**Gwerth am Arian**
Yn ogystal â sicrhau fod Archwilio Mewnol yn parhau i gynnig gwerth am arian ei hun, trwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ganddo yn y modd mwyaf effeithlon bosib, bydd hefyd yn chwarae rôl i sicrhau, tra'n cynnal ei archwiliadau, fod yr unedau a gaiff eu harchwilio hefyd yn arddangos yr un agwedd tuag at warchod adnoddau a buddiannau ariannol.

**Gwasanaethu**
Mae Archwilio Mewnol yn gwasanaethu dinasyddion Gwynedd wrth gynnal ei waith yn ddiwyd a phroffesiynol er mwyn cynorthwyo'r Pennaeth Cyllid i sicrhau iawn weinyddiad ariannol o arian y trethdalwr, a cynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio i roi sicrwydd i'r etholwyr am trefniadau rheolaeth a llywodraethu Cyngor Gwynedd. Wrth gynnal eu gwaith, ni fydd archwilwyr mewnol y Cyngor yn anghofio fod ganddynt rôl allweddol i roi sicrwydd i'r dinasyddion trwy eu swyddogion a'u cynrychiolwyr etholedig.

**Gweithio fel Tîm**
Mae'n rheidrwydd ar Archwilio Mewnol ymgymryd â'u gwaith yn annibynnol, ond er fod disgwyliad ar Archwilio Mewnol i weithredu ac asesu yn wrthrychol, bydd yn gwneud hynny gyda'r amcan clir o gynorthwyo unedau eraill y Cyngor i wella.

**Positif**
Fel mae'r diffiniad swyddogol yn ei nodi, gwasanaeth rhoi sicrwydd yw Archwilio Mewnol, nid gwasanaeth sydd â nod o ddarganfod beiau a gwallau. Ni fyddai'r uned yn cyflawni ei ddyletswyddau petai'n anwybyddu risgiau a gwendidau rheolaeth, ond pan yn amlygu sefyllfaoedd fel hyn bydd yn gwneud hynny gyda'r bwriad clir o gynnig sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i gynnig gwerth ac i wella gweithdrefnau'r Cyngor.

# SAFONAU

## Sut byddwn yn sicrhau gwasanaeth Archwilio Mewnol o safon?

Dyletswydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yw sicrhau fod archwilio mewnol yn cael ei ddarparu yn unol â Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol (“y Côd Ymarfer”) cyn belled a bo hynny yn ymarferol.

Er mwyn sicrhau fod cydymffurfiaeth gyda’r Cod Ymarfer yn parhau, byddwn yn cynnal hunanasesiad rheolaidd — o leiaf ddwywaith y flwyddyn — er mwyn sicrhau fod ein gweithdrefnau yn parhau’n briodol.

**Un o’r camau allweddol er mwyn cwrdd â’r Côd Ymarfer yw datblygu’r Strategaeth Archwilio Mewnol tymor-canol yma.**

Yn ystod cyfnod y Strategaeth yma, rydym yn disgwyl y bydd Côd Ymarfer newydd yn cael ei gyflwyno — mae’r un gyfredol (yn Chwefror 2012) yn ei le ers 2006. Yn wahanol i rai blaenorol, bydd Safonau Archwilio Mewnol i’r Sector Gyhoeddus yn cael ei ddatblygu ar y cyd rhwng CIPFA a’r IIA (Institute of Internal Auditors). Gall hynny olygu newid arwyddocaol yng nghynnwys y Côd Ymarfer, a bydd dau dasg sylfaenol yn wynebu Archwilio Mewnol o safbwynt y côd newydd:

1. Cynnig sylwadau ar y Safonau Archwilio Mewnol i’r Sector Gyhoeddus drafft, fydd yn cael eu lansio ym Mai 2012.
2. Sicrhau gweithrediad sydd yn unol â’r safonau newydd, gan roi rhaglen weithredu yn ei le os oes angen.

# ADOLYGIADAU BLYNYDDOL

## Ar gyfer pa rannau o'r Awdurdod mae adolygiad blynyddol yn hanfodol?

Nid oes modd archwilio pob agwedd o risg a rheolaeth pob blwyddyn, ond o fewn y gyfundrefn risg a rheolaeth bydd rhai systemau o risg uchel angen adolygiad blynyddol er mwyn i archwilio mewnol allu darparu'r sicrwydd angenrheidiol.

Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru — SAC) , wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol. O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**10. Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol.**

### Beth ydi'r "Systemau Ariannol Pwysig"?

Byddwn yn cyfathrebu'n gyson gydag archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru i gytuno ar y diffiniad yma, ond disgwylir mai'r "Systemau Ariannol Pwysig" ydi:

- Y Prif Gyfriflyfr
- Taliadau
- Dyledwyr
- Cyflogau
- Budd-daliadau
- Derbyn Arian
- Rheoli Trysorlys
- Cysoni Banc
- Trethiant Lleol

Byddwn hefyd yn cyfathrebu a chytuno gyda SAC ar beth yn union a olygir fel y "rheolaethau allweddol" ar gyfer y systemau hyn.

# ADOLYGIADAU BLYNYDDOL

## Oes unrhyw feysydd eraill angen adolygiad blynyddol?

**Llywodraethu Corfforaethol**
Un o amcanion allweddol Archwilio Mewnol yw darparu mewnbwn i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) y Cyngor. Mae'r DLIB yn cynnwys gwybodaeth a sicrwydd am drefniadau rheolaeth fewnol y Cyngor, yn ogystal ag asesiad o drefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr awdurdod. Bydd y gofynion hyn yn derbyn sylw fel rhan o'r broses o gynllunio gwaith Archwilio Mewnol.

Mabwysiadwyd Côd Llywodraethu Lleol y Cyngor yn Ebrill 2011. Mae'r Côd Llywodraethu yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA / SOLACE, ac yn cynnwys y polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi chwech egwyddor craidd y fframwaith hwnnw.

Fel rhan o drefniadau paratoi'r Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn ystod cyfnod y Strategaeth yma, bydd Archwilio Mewnol yn adolygu gweithdrefnau'r Cyngor yn erbyn y Côd Llywodraethu, gan sicrhau fod y polisïau ayb yn eu lle ac yn cael eu gweithredu, a'u bod mewn gwirionedd yn cynorthwyo trefniadau llywodraethu priodol y Cyngor.

**Amodau Ariannu**
Mewn rhai achlysuron, bydd y corff sy'n ariannu cynllun penodol yn mynnu adolygiad archwilio mewnol, unai yn flynyddol neu yn achlysurol. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn deillio o Lywodraeth Cymru, yn enwedig yn y maes addysg. Bydd amser penodol yn cael ei neilltuo yn y cynllun archwilio blynyddol lle mae'n ofynnol, fel rhan o'r amodau cyllido, i Archwilio Mewnol gynnal adolygiadau.

**Meysydd o Wendidau Rheolaeth cyson**
Lle mae profiadau gwaith archwilio yn awgrymu fod gwendidau sylweddol yn bodoli mewn uned fusnes, prosiect neu sefydliad, neu lle gwelwyd "llithro yn ôl" ar ôl gwelliant blaenorol, bydd Archwilio Mewnol yn cynnwys adolygiadau blynyddol yn y cynllun, er mwyn sicrhau fod unrhyw welliannau a gyflwynwyd yn rhai parhaus a chynaladwy.

# ADOLYGIADAU BLYNYDDOL

## Pa mor aml fyddwn ni'n archwilio sefydliadau'r Cyngor?

**Ysgolion**

Mae ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yr Awdurdod yn sefydliadau sydd â'u trefniadau llywodraethu eu hunain, ac er eu bod hyd braich o reolaeth yr awdurdod lleol mae cyfrifoldebau y Pennaeth Cyllid dros iawn weinyddiad ariannol, ynghyd â gofynion corfforaethol eraill o safbwynt rheoli ystod o risgiau, yn parhau.

Bydd ysgolion cynradd yn parhau i gael eu harchwilio ar sail thema, fydd yn eu tro wedi eu penderfynu ar sail asesiad risg. Y bwriad yw peidio dewis sampl o ysgolion cynradd ar gyfer yr archwiliadau hyn ar hap, ond yn hytrach anelu i ymweld â phob ysgol gynradd yn gyfnodol wrth gynnal yr adolygiadau hyn, gan anelu i ymweld â phob ysgol gynradd pob 5 mlynedd.

Y bwriad ar gyfer 2011-2015 yw i ymestyn y drefn o gynnal archwiliadau ar sail thema i ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig hefyd, lle'n flaenorol cynhaliwyd archwiliadau fesul sefydliad. Fel gyda'r ysgolion cynradd, y bwriad yw cynnal adolygiadau ar y rheolaethau sy'n berthnasol i'r risgiau mwyaf, gan felly gwneud gwell defnydd o adnoddau.

Bydd y themâu ar gyfer yr holl ysgolion yn cael eu dewis ar sail cofrestr risg yr ysgolion a'r Adran Addysg, a bydd 6 i 8 thema yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

**Cartrefi Preswyl**

Ers 2011/12 mae cartrefi preswyl y Cyngor wedi cael eu harchwilio ar sail thema, yn yr un modd â'r ysgolion. Mae adborth gan reolwyr Darparu a Hamdden yn awgrymu fod y dull yma yn cael ei adnabod fel un mwy effeithiol o ganolbwyntio ar y prif risgiau, a bydd y drefn yn parhau trwy ystod y Strategaeth yma.

**Canolfannau Hamdden**

Yn yr un modd â'r ysgolion a chartrefi preswyl, yn ystod 2012-2015 bydd canolfannau hamdden y Cyngor hefyd yn cael eu hadolygu ar sail thema, gyda sampl gwahanol o ganolfannau yn cael eu dewis bob blwyddyn ar gyfer adolygu'r rheolaethau ar gyfer y risgiau mwyaf.

# ARCHWILIADAU PELLACH

## Yn ogystal ag adolygiadau sydd eu hangen yn flynyddol, pa archwiliadau eraill gaiff eu cynnal?

**Risg yw unrhyw ddigwyddiad all effeithio ar allu'r Awdurdod i wireddu ei amcanion**. Rôl Archwilio Mewnol yw sicrhau fod y Cyngor wedi adnabod y risgiau arwyddocaol y mae yn eu hwynebu, wedi rhoi trefniadau yn eu lle i reoli'r risgiau yma i lefel dderbyniol, ac yna yn gweithredu'r rheolaethau hyn.

Yn gyffredinol, o ystyried maint y Cyngor a'r amryw o risgiau y mae'n eu hwynebu, prin iawn yw'r meysydd hynny fydd angen adolygiad llawn pob blwyddyn. Bydd cynllunio gwaith archwilio mewnol yn cynnwys asesiad o'r risgiau ar draws y Cyngor i gyd, yn systematig fesul uned fusnes, er mwyn llunio rhaglen waith manwl blynyddol sydd yn ystyried yr adnoddau archwilio sydd ar gael. Bydd archwiliadau yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ar y trefniadau sydd yn eu lle i liniaru'r risgiau yma.

**Llunio Cynllun Archwilio — asesiad anghenion archwilio**

Wrth baratoi Asesiad Anghenion Archwilio, rhoddir ystyriaeth i'r risgiau hynny a all effeithio ar allu'r Cyngor i wireddu'r amcanion hyn, ac yn adolygu effeithiolrwydd y camau i liniaru'r risgiau yma.

Byddwn yn defnyddio dull systematig i gynnal asesiad anghenion archwilio wrth ddatblygu cynllun Archwilio blynyddol. Bydd y dull yma yn ystyried risgiau sy'n gysylltiedig ag unedau busnes, gweithgareddau a phrosiectau'r Cyngor. Y camau yw:

1. Asesu gwaith pellach ar systemau ariannol
2. Ystyried y Cynllun Tair Blynedd
3. Dadansoddi Cofrestrau Risg adrannol a thraws gyngor
4. Ymwybyddiaeth o faterion risg sydd wedi eu hadnabod gan Archwilio Mewnol
5. Adnabod grantiau i'w hadolygu
6. Dadansoddi cyllidebau a chyfrifon
7. Ystyried datblygiadau newydd pellach (e.e. cynlluniau cydweithio)

Mae mwy o fanylion am y camau yma i'w cael ar y dudalen nesaf.

# ARCHWILIADAU PELLACH

## Y camau yn y broses o asesu anghenion archwilio a datblygu'r cynllun blynyddol

**1. Systemau Ariannol**

Ar dudalen 6, esbonnir fod reolaethau allweddol y systemau ariannol pwysig i gael eu hadolygu'n flynyddol, yn unol â phrotocol rhwng Archwilio Mewnol ac archwilwyr SAC. Cam cyntaf cynnal yr asesiad anghenion Archwilio blynyddol fydd ystyried pa archwiliad pellach sydd yn angenrheidiol ar y systemau ariannol yma er mwyn sicrhau fod yr holl system wedi ei adolygu yn gyfnodol, a nid y rheolaethau allweddol yn unig. Nid ydym yn rhagweld cynnal archwiliad system llawn yn amlach na phob tair blynedd, gan nad yw adolygiadau o'r math yma yn aml yn ddefnydd mwyaf effeithlon o adnoddau.

**2. Ystyried Cynllun Tair Blynedd addasedig y Cyngor mewn modd systematig**

Mae'r Cynllun Tair Blynedd yn ddogfen allweddol i'r Cyngor gan ei fod yn gynllun strategol sydd yn crynhoi'r amcanion gwella y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy dros y cyfnod 2011-14. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o amcanion gwella, sydd yn ymateb i fygythiadau a chyfleon i'r Cyngor ar lefel strategol. Rhain fydd yn cynnig gwerth ychwanegol i'r cyhoedd, y tu hwnt i fusnes arferol y Cyngor. Gan mai dyma'r broses sydd yn mynd i'r afael â phrif risgiau'r Cyngor, mae'n briodol fod archwilio mewnol yn rhoi sylw i'r risgiau all effeithio ar allu'r Cyngor i wireddu ei amcanion strategol. Bydd y cynllun yn cael adolygu a'i addasu'n gyson.

Felly, byddwn yn ystyried pob prosiect yn y Cynllun Tair Blynedd yn eu trefn, gan asesu'r angen dros gynnwys adolygiad o'r prosiect yn y cynllun archwilio blynyddol.

# ARCHWILIADAU PELLACH

## Y camau yn y broses o asesu anghenion archwilio a datblygu'r cynllun blynyddol

**3. Cofrestrau risg adrannol — faint o ddibyniaeth gall Archwilio Mewnol ei roi ar ddadansoddiad risg rheolwyr y Cyngor?**

Nid ymarferiad unwaith ac am byth yw paratoi asesiad anghenion archwilio er mwyn sicrhau gorchudd archwilio mewnol briodol. Bydd cyfryw asesiad yn cael ei fireinio'n barhaus wrth i ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o risgiau unigol ddatblygu, a gweithgareddau'n cychwyn neu'n ddod i ben. Yn hynny o beth, mae'n hanfodol fod Archwilio Mewnol hefyd yn ystyried cofrestrau risg y Cyngor wrth baratoi ei gynllun archwilio.

Rydym yn derbyn fod gwaith sylweddol yn parhau i ddatblygu cofrestrau risg aeddfed, byw ar draws holl unedau a phrosiectau'r Cyngor. Er hyn, mae'r gwaith i wneud hyn yn mynd yn ei flaen, gyda chymorth y Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant sydd wedi ei lleoli o fewn yr Uned Archwilio a Risg. Erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth yma, disgwylir y bydd cofrestrau risg cadarn yn eu lle ar gyfer unedau busnes a phrosiectau'r Cyngor, ac ar gyfer risgiau sydd yn torri ar draws holl rannau'r Cyngor.

Wrth asesu anghenion archwilio, byddwn yn adolygu'r rheolaethau hynny yr honnir eu bod yn eu lle, er mwyn cynnal gwiriad annibynnol eu bod yn gweithio i'r safon disgwyliedig, gan flaenoriaethu'r risgiau hynny lle mae'r rheolaeth yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'r sgôr risg (e.e. yn dod â risg i lawr o fod yn risg uchel iawn i fod yn risg isel).

Lle nad oes cofrestr risg yn ei le, mae Archwilio Mewnol wedi bod yn dibynnu ar gwblhau ei asesiadau risg ei hun er mwyn llunio ei raglenni archwilio ar gyfer archwiliadau unigol.

**4. Ymwybyddiaeth o faterion risg sydd wedi eu hadnabod gan Archwilio Mewnol**

Ar ôl ystyried materion sydd wedi eu codi o ddadansoddiadau systematig, byddwn wedyn yn cynnwys materion yn y cynllun archwilio sydd wedi deillio o waith blaenorol, wedi codi yn ystod y flwyddyn, neu lle bu cais am archwiliad gan adran benodol. Mae ymwybyddiaeth ac adnabod y Cyngor yn arf bwysig yn y broses o lunio asesiad anghenion archwilio, un na ddylid ei danbrisio. Bydd y gwaith yma hefyd yn cynnwys tasgau rhagweithiol i atal a darganfod twyll.

# ARCHWILIADAU PELLACH

## Y camau yn y broses o asesu anghenion archwilio a datblygu'r cynllun blynyddol

**5. Grantiau**

Cyfeiriwyd ar dudalen 6 fod amodau ariannu rhai grantiau yn mynnu adolygiad gan Archwilio Mewnol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn derbyn nifer o grantiau, ac er nad ydynt yn mynnu mewnbwn Archwilio Mewnol, disgwylir archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Gall grantiau, yn enwedig grantiau Ewropeaidd, fod yn faes o risg uchel, o ystyried y bygythiad y gall arian gael ei grafangu'n ôl gan y corff cyllido os oes pryderon yn bodoli am weinyddiaeth grantiau.

Gan ddilyn yr egwyddor ei bod yn well fod unrhyw wendidau mewn gweinyddiaeth yn cael eu hamlygu yn gynnar gan Archwilio Mewnol, yn hytrach na gan archwilwyr allanol pan y gall fod yn rhy hwyr, bydd gweinyddiaeth sampl o grantiau ar draws y Cyngor yn cael eu harchwilio yn flynyddol.

**6. Cyllidebau a Chyfrifon**

Byddwn yn adolygu cyllidebau a chyfrifon y Cyngor wrth baratoi'r asesiad anghenion archwilio. Bydd hyn yn ffordd o adnabod gweithgareddau'r Cyngor, unrhyw feysydd o newid, neu feysydd lle mae gorwariant yn codi pryderon am weinyddiaeth ariannol.

Mae adolygiad o gyllideb cyfalaf y Cyngor yn ffynhonnell fydd yn caniatáu i ni adnabod contractau cyfalaf sylweddol sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer y flwyddyn ariannol, gan alluogi Archwilio Mewnol i gynllunio archwiliad lle byddai hynny yn briodol.

**7. Datblygiadau newydd**

Byddwn yn chwilio i ymateb yn brydlon i unrhyw ddatblygiadau newydd y gall y Cyngor fod yn rhan ohono. Er enghraifft, ar gyfer cyfnod y Strategaeth, mae'r "Compact" yn golygu y bydd llawer o sylw yn cael ei roi i gynlluniau cydweithio rhwng Cyngor Gwynedd ac awdurdodau eraill.

# Sut bydd Archwilio yn cydweithio, neu'n dibynnu ar waith eraill?

**Swyddfa Archwilio Cymru**

Yn unol â'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol:

- Byddwn yn cydweithredu ar asesiadau risg archwilio unigol a chyffredinol, a chynlluniau blynyddol a chylchol i bennu meysydd y bydd y ddau barti'n ymdrin â hwy, gan sicrhau dull 'cydgysylltiedig' o gynnal archwiliad y Cyngor ac osgoi dyblygu ymdrech ac adnoddau.
- Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu trefnu i hwyluso cyfathrebu da. Defnyddir y rhain i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, trafod canfyddiadau archwilio a gwella trefniadau cynllunio ar y cyd.
- Cyfnewid gwybodaeth, gan gynnwys strwythurau, cyfrifoldebau a rolau staff mewn timau penodol, materion archwilio cyffredinol, cyngor technegol, adroddiadau archwilio, twyll ac afreoleidd-dra.

**Archwilwyr Mewnol cyrff cyhoeddus eraill**

Rydym wedi ymrwymo i gydweithio gydag archwilwyr mewnol 7 cyngor arall gogledd a chanolbarth Cymru, yn ogystal ag archwilwyr mewnol o'r Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Prifysgol Bangor i ddatblygu Partneriaeth Archwilio Mewnol Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Bydd Strategaeth y Bartneriaeth yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar ei ffurf terfynol yn ystod 2012/13. Amcanion y Bartneriaeth yw:

1. Darparu gwasanaeth archwilio mewnol mwy effeithlon a chost-effeithiol i'n cwsmeriaid drwy reoli costau a gwella ansawdd er mwyn cwrdd ag anghenion ein cwsmeriaid
2. Datblygu agwedd strategol i arweinyddiaeth a darpariaeth archwilio mewnol, unai ar y cyd neu'n lleol
3. Datblygu partneriaeth gynhwysol gydag aelodaeth a threfniadau llywodraethu addas
4. Sicrhau fod staff, aelodau etholedig, pwyllgorau archwilio ac uwch reolaeth yn prynu i mewn i'r weledigaeth, nodau ac amcanion.

# CYDWEITHIO

## Sut bydd Archwilio yn cydweithio, neu'n dibynnu ar waith eraill?

**Asiantaethau eraill**
Lle bydd modd osgoi dyblygu gwaith er mwyn derbyn y sicrwydd angenrheidiol, byddwn yn ceisio dibynnu ar waith asiantaethau eraill. Gall hyn gynnwys rhannau eraill o'r Cyngor. Cyn diwedd 2012/13 rydym yn anelu i greu Fframwaith Sicrwydd er mwyn gallu rhoi darlun o'r ffynonellau sicrwydd yma, fydd yn cynnwys eitemau megis:

- Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaethau Rheoleiddio
- Trefniadau Monitro Perfformiad
- Trefn Gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol
- Rheoleiddwyr Allanol
- Swyddfa Archwilio Cymru.

**Partneriaethau**
Dros y blynyddoedd diweddar, mae'r Cyngor wedi datblygu nifer o bartneriaethau gyda chyrff cyhoeddus eraill, sydd yn achlysurol hefyd yn cynnwys cwmnïoedd preifat. Disgwylir y bydd hyn yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.

Ar wahân i'r angen i gael cysondeb ar draws y cynghorau ynglŷn â'r hyn a olygir gyda "partneriaeth", bydd Archwilio Mewnol yn parhau i drafod yn rheolaidd gydag archwilwyr mewnol y cyrff cyhoeddus eraill er mwyn sefydlu ffyrdd i gael sicrwydd i bob partner yn y ffordd mwyaf effeithiol ac effeithlon posib.

Un ffordd amlwg o wneud hyn yw i sefydlu o gychwyn unrhyw bartneriaeth yw mai archwilwyr mewnol yr Awdurdod Arweiniol fydd yn cynnal archwiliad ac yn darparu sicrwydd i'r gweddill, a dyma'r hyn y bydd Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn ei arddel i'r partneriaid eraill.

# MATHAU O ARCHWILIAD

## Pa amrywiol fathau o archwiliad fydd yn cael eu defnyddio?

**Archwilio ar Sail Risg**
Archwilio ar Sail Risg fydd conglfaen gwaith Archwilio Mewnol am gyfnod y Strategaeth yma. Mae'r drefn yma yn caniatáu i ni ganolbwyntio ein hadnoddau ar y pethau sydd yn wirioneddol bwysig, gan ganiatáu i ni werthuso'r risgiau mwyaf pwysig a'r rheolaethau sydd yn eu rheoli.
Mae archwilio ar sail risg yn seiliedig ar ddamcaniaeth syml, sef fod Archwilio Mewnol yn adolygu'r rheolaethau sydd yn eu lle i liniaru'r risgiau all rwystro'r Cyngor a'i adrannau rhag gwireddu eu hamcanion. Felly, wrth lunio rhaglenni gwaith archwiliadau unigol, bydd y drefn ganlynol yn cael ei dilyn:

**Amcan → Risg → Rheolaethau → Profion**

Fel esbonnir ar dudalen 11, mae'r dibyniaeth ellir ei roi ar gofrestrau risg adrannol yn ddibynnol ar ansawdd y cofrestrau hyn. Er mwyn cynnal Archwilio ar Sail Risg yn effeithiol, rhaid ystyried digonolrwydd y cofrestrau, os yw'r holl risgiau perthnasol wedi eu cynnwys ynddynt, ac chynnal asesiad risg pellach gan Archwilio Mewnol os oes angen.

Mae nifer o feysydd lle na fydd modd hawdd o ddefnyddio'r fethodoleg yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

- lle mae nifer y trafodion yn isel;
- lle gellir gwirio'r trafodion i gyd i ffynhonnell annibynnol;
- ar gyfer archwiliadau interim y prif systemau lle mae'n bosib mai profi yn unig sydd ei angen;
- lle gwyddid fod y system mor wan fel nad yw'n briodol rhoi gwerthusiad ar y rheolaethau;
- ar gyfer ymchwiliadau twyll;
- ar gyfer adolygiadau gwerth am arian.

# MATHAU O ARCHWILIAD

## Pa amrywiol fathau o archwiliad fydd yn cael eu defnyddio?

**Mathau eraill o waith Archwilio Mewnol**
Yn ogystal ag Archwiliadau ar Sail Risg, byddwn hefyd yn defnyddio cyfuniad o'r canlynol er mwyn dod at farn gyffredinol am drefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor:

- **Archwiliadau Technoleg Gwybodaeth** — bydd Archwilio Mewnol yn sicrhau fod ganddo un swyddog penodol sydd yn gyfrifol am archwiliadau arbenigol yn y maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Bydd yr adain hefyd yn defnyddio arbenigwyr allanol yn y maes lle bo'r angen am hynny, at bwrpasau hyfforddi a sicrhau ymwybyddiaeth am ddatblygiadau newydd.
- **Archwiliadau caffael/contractau** — defnyddir y diffiniad mwyaf eang o "contractau" yn y cyd-destun yma, sef cytundeb i wneud gwaith neu ddarparu gwasanaeth neu nwyddau am dâl. Am gyfnod cychwynnol y strategaeth yma bydd pob tîm yn archwilio yn cynnal adolygiadau o gontractau cyfalaf a refeniw sydd yn berthnasol i'w maes gwaith, yn hytrach na defnyddio un tîm arbenigol. Fodd bynnag, bydd y trefniant yma yn parhau dan adolygiad dros y tair blynedd.
- **Archwiliadau gwerth am arian** — mae disgwyl fod archwilwyr mewnol yn ymwybodol o ofynion Gwerth am Arian wrth gynnal eu holl waith. Yn ogystal â hyn, byddwn yn adolygu canlyniadau gwaith Uned Effeithlonrwydd y Cyngor wrth ystyried rhaglennu gwaith Gwerth am Arian mewn meysydd penodol.
- **Archwiliadau twyll, llygredd ac afreoleidd-dra** — Er nad ymchwilio i dwyll yw pwrpas archwilio mewnol, rhaid i bob archwiliwr fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai twyll fod yn digwydd. Yn benodol, mae'r cyfrifoldeb i ymchwilio i dwyll wedi syrthio ar Archwilio Mewnol gan fod twyll yn digwydd oherwydd bod diffygion neu wendidau mewn rheolaethau mewnol wedi rhoi'r cyfle i unigolion fanteisio ar y diffyg rheolaeth. Byddwn yn cynnal ymchwiliadau o'r math yma yn unol â chynnwys nifer o bolisïau a strategaethau eraill, megis y Strategaeth Gwrth-Dwyll a Gwrthlygredd, y Cynllun Ymateb i Dwyll, Polisi Canu'r Gloch a'r Polisi Disgyblaeth.

# DARPARIAETHAU

## Beth am y darnau o waith nad ydynt yn y cynllun archwilio blynyddol?

**Archwiliadau Dilyniant**

Yn ystod cyfnod y Strategaeth, bydd Archwilio Mewnol yn parhau i gynnal archwiliadau dilyniant. Yn ôl dymuniad y Pwyllgor Archwilio, byddwn yn tracio gwaith dilyniant unrhyw archwiliad sydd wedi cael barn "C" neu "CH", ond byddwn hefyd yn anelu i gynnal archwiliadau dilyniant ar archwiliadau sydd wedi derbyn barn "B" fel mae adnoddau yn ei ganiatáu, Lle bydd gofyn i reolwyr gwasanaeth sydd wedi cael barn "C" neu "CH" yn yr archwiliad wreiddiol gyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio, byddwn yn cynnal gwiriadau fod yr hyn a adroddwyd yn gywir. Byddwn yn cynnwys darpariaeth o isafswm o 80 diwrnod yn y cynllun blynyddol ar gyfer gwaith dilyniant.

**Gwaith Ymgynghorol/cynghori**

Byddwn yn parhau i gynnig cyngor i adrannau ar faterion o briodoldeb a rheoli risg, er mwyn eu cynorthwyo i wneud defnydd cywir o adnoddau'r Cyngor.

Ym mhob gwaith ymgynghori fydd yn cael ei gynnig gan Archwilio Mewnol, byddwn yn sicrhau nad yw'r cyngor yma yn cyfaddawdu annibyniaeth Archwilio Mewnol, ac yn eu rhwystro rhag gwneud penderfyniadau gwrthrychol. Bydd cynrychiolaeth Archwilio Mewnol ar unrhyw dîm prosiect ayb wedi ei gyfyngu'n gaeth i roddi cyngor ar reolaethau mewnol a phriodoldeb. Gallai unrhyw weithgaredd gweithredol gyfaddawdu annibyniaeth Archwilio Mewnol. Yn aml, mae'n fanteisiol i Archwilio Mewnol gael cyfle i gyfrannu cyngor o gychwyn prosiect, ond ni fydd gan archwilio mewnol unrhyw rôl weithredol a ni fydd unrhyw archwiliwr yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau. Byddwn yn cynnwys darpariaeth o isafswm o 75 diwrnod yn y cynllun blynyddol ar gyfer gwaith ymgynghorol/cynghori.

**Twyll, llygredd ac afreoleidd-dra**

Ar sail hanesyddol, byddwn yn cynnwys isafswm o 140 diwrnod ar gyfer archwiliadau ymatebol / ymchwiliadau arbennig yn flynyddol.

# Sut fyddwn yn cyfathrebu canlyniadau ein gwaith?

Byddwn yn parhau i gynhyrchu adroddiadau archwilio mewnol ar gyfer archwiliadau llawn, a memoranda ar gyfer adolygiadau llai neu waith dilyniant.

Yn unol â dymuniadau'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio, byddwn yn parhau i gategoreiddio adroddiadau Archwilio, lle bynnag fo hynny'n briodol, i gategorïau tebyg i'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd:

| | |
|---|---|
| **Barn "A"** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. |
| **Barn "B"** | Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. |
| **Barn "C"** | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. |
| **Barn "CH"** | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn. |

Yn yr un modd, byddwn yn parhau i osod categorïau barn ar gyfer gwaith dilyniant:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl. |
| **Derbyniol** | y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r prif argymhellion wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl. |
| **Anfoddhaol** | nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu. |
| **Annerbyniol** | y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol. |

Ar gyfer y ddau fath o archwiliad, byddwn yn datblygu'r drefn yn ystod cyfnod y Strategaeth yma, er mwyn rhoi gwell cysylltiad gyda'r trefniadau rheoli risg corfforaethol a chynyddu tryloywder y broses a ddefnyddir er mwyn gosod y categori barn.

# ADNODDAU

## Sut byddwn yn sicrhau adnoddau i ganiatau Archwiliad Mewnol ystyrlon a digonol?

**Darparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol**
Mae adroddiad Simpson, "Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble?" yn datgan yn ddiamwys y dylid darparu Archwilio Mewnol, a rheolaeth ariannol, ar lefel lleol (ond gan nodi fod rhai achlysuron ble gall cydweithio isranbarthol fod yn fanteisiol). Ar wahân i'r trefniadau cydweithio a ddisgrifir ar dudalen 13, rhagwelir y bydd Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu yn fewnol trwy oes y Strategaeth yma, ond gan gydnabod y gall datblygiadau gwleidyddol yn lleol, rhanbarthol neu genedlaethol newid hynny.

**Staffio**
Mae strwythur yr Adain Archwilio Mewnol yn 11 o staff (cyfatebol i amser llawn), heb gynnwys yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg. Mae'r adnoddau staff hyn wedi eu rhannu i bedwar tîm archwilio, a bydd gan pob un o'r timau archwilio arweinydd, fydd yn gyfrifol am drefnu, goruchwylio ac adolygu gwaith eu tîm. Bydd yr arweinyddion tîm yn atebol i'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg. Bydd staff yn cael eu symud rhwng timoedd fel sy'n briodol.

Am 18 mis cyntaf y Strategaeth yma, bydd un o'r arweinyddion tîm ar secondiad i'r Uned Gyfrifeg Ganolog, ac felly bydd y gwaith yn cael ei gynllunio ar sail 3 tîm a 10 archwiliwr; yn 2013 rhagwelir y bydd yr uned yn dychwelyd i fod yn bedwar tîm. Nodir, fodd bynnag, fod bwriad i leihau lefel staffio'r uned o un swydd yn 2014/15 fel ymateb i drefniadau effeithlonrwydd y Cyngor.

Fel rhan o'r broses o adnabod yr adnoddau archwilio sydd ar gael, bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg hefyd yn creu cyllideb amser i pob archwiliwr fydd yn cynnwys amcangyfrif amser ar gyfer pethau megis gwyliau, salwch a rheolaeth.

Ar wahân i ddefnydd achlysurol o arbenigwr Archwilio TG, nid ydym yn rhagweld defnyddio adnoddau staffio allanol yn ystod cyfnod y Strategaeth yma.

# ADNODDAU

## Sut byddwn yn sicrhau fod yr Archwilwyr Mewnol yn parhau â'r sgiliau angenrheidiol?

**Hyfforddiant**
Strategaeth Archwilio Mewnol am gyfnod y Strategaeth fydd parhau i ddatblygu ac atgyfnerthu'r cymysgedd o sgiliau a phrofiad o fewn y gwasanaeth, wedi'i gynorthwyo gan "fatrics cymwyseddau" ac adolygiadau ôl-archwiliad, yn ogystal â'r gyfundrefn gwerthuso staff gorfforaethol. Byddwn yn defnyddio cyhoeddiad CIPFA "The Excellent Internal Audit" i'n cynorthwyo gyda'r drefn yma, fel sy'n briodol.

Bwriedir parhau i anelu i gael isafswm o 2 archwiliwr (heb gynnwys yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg) sydd yn gymwysedig â chorff CCAB neu'r IIA, yn ogystal a sicrhau fod o leiaf un archwiliwr yn derbyn hyfforddiant tuag at gymhwyster broffesiynol ar unrhyw adeg.

Bydd Archwilio Mewnol wedi ei ymglymu hefyd i gynnal hyfforddiant i bob un o'r archwilwyr. Bwriedir cynnal o leiaf tri cwrs y flwyddyn ar sgiliau archwilio, unai yn fewnol neu ar y cyd gyda chynghorau eraill, a bydd disgwyl i bob un o'r archwilwyr fynychu'r rhain. Mae hyn uwchlaw unrhyw hyfforddiant arbenigol penodol y bydd yn ddisgwyliedig i swyddogion ei dderbyn. Bydd y cyrsiau hyn yn cynnwys rhai sydd wedi eu darparu gan Grŵp Hyfforddi Partneriaeth Archwilio Mewnol Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Bydd pob archwiliwr sydd yn aelod o gorff proffesiynol hefyd yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) yn unol â gofynion y corff penodol hwnnw.

Pan fyddwn yn defnyddio arbenigwyr allanol mewn maes archwilio penodol, bydd cynorthwyo'r staff mewnol i ddatblygu yn rhan allweddol o'r brîff.

# MESUR ANSAWDD A GWELLIANT PARHAUS

## Pa drefniadau mesur perfformiad a sicrhau ansawdd fydd yn eu lle?

Fel pob rhan arall o'r Cyngor, byddwn yn cymryd rhan yn nhrefniadau corfforaethol y Cyngor i fesur a gwella perfformiad. Diffinnir mesurydd fel gwybodaeth sy'n gallu cael ei fesur ac sy'n amlygu a yw gwasanaeth yn cwrdd â gofynion y cwsmer. Mesuryddion Archwilio Mewnol ar gyfer cyfnod y Strategaeth yw:

| **NIFER: Faint rydym wedi ei wneud?** | | **ANSAWDD: Pa mor dda rydym wedi ei wneud?** | |
|---|---|---|---|
| | **Uchelgais (2012/13)** | | **Uchelgais (2012/13)** |
| Gwir ddyddiau archwilio a ddarparwyd i Cyngor Gwynedd | **1,350** | Nifer y Safonau Archwilio ble ceir cydymffurfiaeth llawn yn ôl adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth | **10** |
| Gwir ddyddiau archwilio a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol | **80** | | |
| Cyfartaledd dyddiau hyfforddiant / CPD a gyflwynir i staff archwilio | **10** | | |

| **Beth yw'r effaith?** | **Uchelgais (2012/13)** |
|---|---|
| % archwiliadau'r cynllun addasedig sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am eu bod unai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu cau | **95%** |
| Canran o'r archwiliadau mewnol sydd yn cyrraedd barn "B" neu well | **70% - 80%** |
| Canran o'r archwiliadau dilyniant sydd yn derbyn barn "Derbyniol" neu well | **80% - 90%** |

# RISGIAU

## Pa risgiau mae Archwilio Mewnol ei hun yn eu hwynebu?

Y prif fygythiad all rwystro Archwilio Mewnol rhag cyrraedd ei amcanion yw methiant i gydymffurfio â'r Côd Ymarfer oherwydd un neu fwy o'r canlynol:

- Swyddfa Archwilio Cymru yn methu rhoi sicrwydd ar waith yr Adain, ac yn adrodd ar hynny yn eu harchwiliad o'r cyfrifon.
- Methiant i gyflawni cyfran digonol o'r cynllun, yn unol â thargedau.
- Methiant i gwblhau archwiliadau unigol o fewn amser.
- Methiant i ddarparu gwasanaeth i'r safon digonol, gan arwain at fethiant i nodi gwendidau rheolaethol difrifol neu dwyll, neu rhoi arweiniad anghywir.